# DCYNGOR SIR YNYS MÔN

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **24 CHWEFROR 2026** |
| **PWNC:** | **ADRODDIAD MONITRO'R GYLLIDEB –TRYDYDD CHWARTER 2025/26 - CYFALAF** |
| **DEILYDD(ION) PORTFFOLIO** | **CYNG ROBIN WILLIAMS – DIRPRWY ARWEINYDD A DEILYDD PORTFFOLIO CYLLID , BUSNES CORFFORAETHOL A PHROFIAD Y CWSMER** |
| **PENNAETH GWASANAETH / CYFARWYDDWR:** | **MARC JONES – CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD :**<br>Ffôn:<br>E-bost: | **MARC JONES – CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151**<br>01248 762601<br>rmjfi@ynysmon.gov.wales |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

## A – Argymhelliad/ion a rheswm/rhesymau

- Argymhellir bod y Pwyllgor Gwaith yn nodi cynnydd y gwariant a'r derbyniadau yn erbyn y gyllideb gyfalaf ar gyfer 2025/26 yn chwarter 3.
- Cymeradwyo'r cynlluniau ychwanegol, gwerth £7.276m, a ychwanegwyd i'r rhaglen gyfalaf a'r cyllid diwygiedig, yn unol ag Atodiad C, a fydd yn rhoi cyllideb gyfalaf ddiwygiedig o £66.945m ar gyfer 2025/26.

## B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

Amherthnasol

## C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

- Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol y gyllideb gyfalaf ar gyfer y trydydd chwarter o'r flwyddyn ariannol.
- Mae monitro'r gyllideb yn swyddogaeth a ddynodwyd i'r Pwyllgor Gwaith.

## CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Ydi

## D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Ydi – Mae'r Pwyllgor Gwaith wedi'i gymeradwyo i awdurdodi'r addasiadau a wnaed i'r gyllideb gyfalaf gychwynnol a gymeradwywyd gan y Cyngor.

## DD – Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol):

| | | |
|---|---|---|
| **1** | Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Mae'r gyllideb gyfalaf yn cyllido buddsoddiadau mewn asedau ac isadeiledd sy'n ofynnol i ganiatáu i'r Cyngor gyflawni'r amcanion hirdymor a nodir yn ei Gynllun Corfforaethol a'i Strategaeth Gyfalaf. |
| **2** | A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaeth ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut? | Bydd rhai o'r buddsoddiadau unigol, e.e. gwaith atal llifogydd, yn atal costau yn y dyfodol, tra bydd eraill, e.e. prosiectau ICF, yn lleihau'r ddibyniaeth ar y Cyngor i ddarparu gwasanaethau drutach. |

| | | |
|---|---|---|
| **3** | A fuom yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | Mae cyllid y prosiectau wedi'i gytuno a'i gynllunio gyda sefydliadau eraill, yn nodedig Llywodraeth Cymru. |
| **4** | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai hynny y mae'r penderfyniad hwn yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | Ymgynghorwyd â dinasyddion Ynys Môn ar Gynllun Corfforaethol y Cyngor a Rhaglen Gyfalaf 2025/26. |
| **5** | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei chael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Mae rhai o'r prosiectau a ariennir gan y rhaglen gyfalaf yn effeithio ar yr agenda cydraddoldeb, e.e. mynediad i'r anabl mewn ysgolion, grantiau cyfleusterau i'r anabl. |
| **6** | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad ei gael ar y rhai hynny sy'n profi anfantais economaidd gymdeithasol. | Mae gwariant ar brosiectau cyfalaf wedi'i gynllunio i wella / cynnal asedau a gwasanaethau'r Cyngor, a all effeithio'n uniongyrchol ar y grwpiau hynny sy'n profi anfantais gymdeithasol-economaidd. |
| **7** | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei chael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Dim effaith ar yr iaith Gymraeg. |
| **E -** | **Gyda phwy yr ymgynghorwyd?** | **Beth oedd eu sylwadau?** |
| **1** | **Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA)** (gorfodol) | Mae'r TA wedi ystyried yr adroddiad ac mae'r sylwadau wedi'u cynnwys yn yr adroddiad derfynol. |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (gorfodol) | Amherthnasol – adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn. |
| **3** | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro** (gorfodol) | Mae'r Swyddog Monitro yn aelod o'r TA ac mae ei sylwadau wedi cael eu hystyried. |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | Bydd y Gwasanaeth wedi darparu mewnbwn ar gynnydd ar gyfer prosiectau sy'n uniongyrchol o dan eu rheolaeth. |
| **5** | **Eiddo** | Bydd y Gwasanaeth wedi darparu mewnbwn ar gynnydd ar gyfer prosiectau sy'n uniongyrchol o dan eu rheolaeth. |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth (TGCh)** | Bydd y Gwasanaeth wedi darparu mewnbwn ar gynnydd ar gyfer prosiectau sy'n uniongyrchol o dan eu rheolaeth. |
| **7** | **Sgriwtini** | Trafodwyd y sefyllfa ar ddiwedd y chwarter gan Banel Sgriwtini Cyllid yn ei gyfarfod ar 12 Chwefror 2026. |
| **8** | **Aelodau Lleol** | Amherthnasol |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol eraill** | Amherthnasol |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Atodiad A – Adroddiad Monitro'r Gyllideb Gyfalaf – Chwarter 3 2025/26<br>Atodiad B – Crynodeb o wariant prosiectau cyfalaf hyd yma yn erbyn y gyllideb gyfalaf a'r gwariant a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn<br>Atodiad C – Newidiadau i gyllidebau / cynlluniau ychwanegol a ychwanegwyd ers cwblhau'r broses gosod cyllideb |
| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth):** |
| • Cyllideb Gyfalaf 2025/26, fel y'i cymeradwywyd gan y Cyngor llawn ar 6 Mawrth 2025<br>• Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2025/26, a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn ar 6 Mawrth 2025<br>• Adroddiad Alldro Cyfalaf 2024/25, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ar 17 Gorffennaf 2025<br>• Adroddiad Monitro Cyllideb 2025/26 – Chwarter Cyntaf, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ar 23 Medi 2025<br>• Adroddiad Monitro Cyllideb 2025/26 – Ail Chwarter, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ar 25 Tachwedd 2025 |

**ATODIAD A**

## 1. CYFLWYNIAD

**1.1** Dyma adroddiad monitro'r gyllideb gyfalaf ar gyfer trydydd chwarter y flwyddyn ariannol, ac mae'n caniatáu i Aelodau nodi cynnydd o ran gwariant cyfalaf a derbyniadau cyfalaf yn erbyn y gyllideb gyfalaf.

**1.2** Ym mis Mawrth 2025, cymeradwyodd y Cyngor raglen gyfalaf ar gyfer gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud â thai o £23.7m ar gyfer 2025/26, a rhaglen gyfalaf o £20.594m ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai (CRT). Yn ogystal â hyn, ym mis Gorffennaf 2025, cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith i lithriad cyfalaf o £2.529m gael ei ddwyn ymlaen o 2024/25, a daw hyn â chyfanswm y rhaglen gyfalaf ar gyfer gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud â thai i £25.929m, a £20.894m ar gyfer y CRT. Ers cwblhau'r broses gosod cyllideb, ychwanegwyd cynlluniau at y rhaglen, y rhan fwyaf ohonynt yn cael eu cyllido gan grantiau, yn ogystal ag addasu cyllid, a daw hyn i gyfanswm o £20.122m. Daw hyn â chyfanswm y gyllideb gyfalaf ar gyfer 2025/26 i £66.945m. Dangosir hyn yn y tabl isod:-

| Cyllidir gan | Cyllideb wreiddiol 2025/26, fel y'i cymeradwywyd gan y Cyngor llawn £'000 | Llithriad, fel a gymeradwywyd yn alldro Ch 4 2024/25 £'000 | Cynlluniau ychwanegol / addasiadau ers gosod y gyllideb £'000 | CYFANSWM £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Grant | 21,960 | 1,006 | 16,917 | **39,883** |
| Benthyca â Chefnogaeth | 3,118 | 696 | 2,153 | **5,967** |
| Benthyca Digefnogaeth | 12,068 | 0 | (8,386) | **3,682** |
| Cyfraniad Refeniw | 5,488 | 300 | 8,106 | **13,894** |
| Derbyniadau Cyfalaf | 500 | 331 | (7) | **824** |
| Cronfeydd wrth gefn | 1,160 | 181 | 494 | **1,835** |
| Benthyciad | 0 | 15 | 845 | **860** |
| **CYFANSWM** | **44,294** | **2,529** | **20,122** | **66,945** |

Gweler Atodiad C am fanylion newidiadau i gyllidebau / cynlluniau ychwanegol a ychwanegwyd ers gosod y gyllideb.

## 2. CYNNYDD AR WARIANT 2025/26

**2.1** Isod ceir tabl yn dangos crynodeb o gyllideb flynyddol rhaglen gyfalaf 2025/26 a sut y caiff ei gyllido, ynghyd â'r gwariant cyfalaf hyd at 31 Rhagfyr 2025:-

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol £'000 | Gwariant Gwirioneddol £'000 | Gwariant wedi'i Ymrwymo £'000 | Cyfanswm Gwariant £'000 | Cyllideb Flynyddol a Wariwyd % |
|---|---|---|---|---|---|
| Tai – Cronfa Gyffredinol | 1,099 | 559 | 344 | 903 | 82 |
| Tai - CRT | 24,871 | 15,704 | 0 | 15,704 | 63 |
| Dysgu Gydol Oes | 3,905 | 1,704 | 271 | 1,975 | 51 |
| Economaidd ac Adfywio | 14,963 | 7,395 | 804 | 8,199 | 55 |
| Priffyrdd | 9,193 | 4,175 | 754 | 4,929 | 54 |
| Rheoli Gwastraff | 1,462 | 145 | 438 | 583 | 40 |
| Eiddo | 8,650 | 2,982 | 167 | 3,149 | 36 |
| Trawsnewid | 815 | 221 | 255 | 476 | 58 |
| Gwasanaethau Oedolion | 1,987 | 754 | 1 | 755 | 38 |
| **Cyfanswm** | **66,945** | **33,639** | **3,034** | **36,673** | **55** |
| **Cyllidir gan:** | | | | | |
| Grant Cyfalaf | 39,883 | | | | |
| Derbyniadau Cyfalaf | 824 | | | | |
| Bentyca â Chefnogaeth | 5,967 | | | | |
| Benthyca Digefnogaeth | 3,682 | | | | |
| Cyfraniad Refeniw | 13,894 | | | | |
| Cronfeydd wrth gefn | 1,835 | | | | |
| Benthyciad | 860 | | | | |
| **Cyfanswm Cyllid** | **66,945** | | | | |

**2.2** Mae 50% o gyllideb flynyddol y Gronfa Gyffredinol wedi'i wario hyd yn hyn. Y rheswm am hyn yw bod nifer o'r cynlluniau cyfalaf wedi'u pwysoli tuag at ran olaf y flwyddyn ariannol. Mae rhan helaeth cynlluniau cyfalaf ar y gweill, gydag eraill heb ddechrau eto, fodd bynnag, disgwylir i'w cyllideb gael ei defnyddio yn y chwarter nesaf neu tuag at ran olaf y flwyddyn ariannol (Grant Galluogi, unedau gofal plant a'r grantiau Gwres Carbon Isel). Mae'r holl gynlluniau cyfalaf a'u gwariant cysylltiedig i'w gweld yn Atodiad B. Mae nifer o gynlluniau grantiau cyfalaf yn 2025/26 a cheir diweddariad ar y rhain yn Adran 3.1 o'r adroddiad hwn.

**2.3** Mae'r CRT wedi gwario 63% o'r gyllideb flynyddol. I gael rhagor o wybodaeth am wariant cyfalaf y CRT a'r gwariant a ragwelir, edrychwch ar adroddiad monitro cyllideb chwarter 3 y CRT, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ar 24 Chwefror 2026.

## 3. CYLLIDO

### 3.1 Grantiau Cyfalaf

**3.1.1** Mae nifer o gynlluniau Grantiau Cyfalaf yn y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2025/26, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi cychwyn ac yn mynd rhagddynt. Ceir diweddariad byr ar y cynlluniau hynny isod:-

- **Caergybi : Prosiect Trawsnewid a Yrrir gan Ddiwylliant a Threftadaeth (gan gynnwys Menter Treftadaeth Treflun THI Cam II a chyllid Llywodraeth y DU)** – Mae'r prosiect hwn yn gwneud cynnydd sylweddol, ac mae nifer o ddatblygiadau allweddol bron wedi'u cwblhau:-
    - Canolfan yr Empire: Ailagorodd y Ganolfan Chwarae i'r cyhoedd yn chwarter 2, ac mae'r ganolfan yn boblogaidd iawn. Mae holl elfennau prosiectau Cyngor Tref Caergybi bellach wedi'u cwblhau.
    - 9 Stryd Stanley: Mae'r prosiect wedi'i gwblhau, gyda'r llawr gwaelod bellach yn cael ei ddefnyddio i bwrpas masnachol a thenantiaid wedi'u sicrhau ar gyfer y gofod preswyl uwchben.
    - Adeiladau Canolog: Mae'r prosiect wedi wynebu llithriad pellach, a bellach disgwylir i'r adeilad gael ei gwblhau ganol Mawrth 2026. Mae'r tenantiaid wedi cael gwybod am yr oedi. Yn gyffredinol, mae'r rhaglen 4 mis ar ei hôl hi oherwydd gwaith na ellid bod wedi'i ragweld.
    - Hen Adeilad HSBC: Cafodd y gwaith ei ohirio oherwydd problemau gyda gwasanaethau cyfleustodau ac, yn gyffredinol, mae'r rhaglen waith 8 mis ar ei hôl hi, sydd wedi arwain at gynnydd o ran costau. Disgwylir i'r gwaith gael ei gwblhau ym Mai 2026, ac mae'r tenantiaid wedi cael gwybod.
    - 2-4 Stryd y Farchnad: Mae'r llawr gwaelod wedi'i gwblhau, gyda'r tenant bellach yn masnachu'n llwyddiannus.
    - Sant Cybi: Ail-agorodd Sant Cybi i'r cyhoedd yn chwarter 3, gan roi cyfle i bobl gael mynediad cyn y Nadolig. Bydd Sant Cybi ac Eglwys y Bedd yn cael eu trosglwyddo'n ôl i'r Eglwys ddiwedd Ionawr. Bydd elusen leol yn symud i Eglwys y Bedd i weithredu menter gymdeithasol.
    - Canolfan Ucheldre: Mae'r gwaith yn parhau, a disgwylir i'r prosiect gael ei gwblhau erbyn diwedd Mawrth 2026. Mae'r ganolfan wedi parhau i fod yn weithredol ac ar agor i'r cyhoedd tra bod yr holl waith yn cael ei wneud.
    - Menter Treftadaeth Treflun (THI): Mae'r gwaith ar y tri eiddo sy'n derbyn grant o dan THI yn mynd rhagddynt yn dda. Mae'r gwaith ar ffryntiad siopau ar y gweill, ac un bellach wedi'i gwblhau. Disgwylir i'r rhan fwyaf o brosiectau gael eu cwblhau yn chwarter 4, er y bydd rhai elfennau'n parhau yn chwarter 1 2026/27.

    - Amgueddfa Forwrol – Mae gwaith wedi dechrau ar dynnu creigiau wrth ymyl yr amgueddfa. Disgwylir i hyn gael ei gwblhau erbyn canol mis Chwefror, gyda'r elfennau sy'n weddill i'w cwblhau erbyn diwedd mis Mawrth 2026.
    - Cyllid ychwanegol: Mae partneriaid cyflenwi wedi ceisio mwy o gyllid i dalu costau cynyddol. Mae'r elfen LUF o'r rhaglen gyffredinol yn parhau i fod o fewn y gyllideb a disgwylir i'r mwyafrif o brosiectau gael eu cwblhau erbyn mis Mawrth 2026. Bydd HSBC yn mynd drosodd i chwarter 1 2026/27 yn ogystal â rhai o brosiectau THI.
    - Derbyniwyd y taliad terfynol o'r Gronfa Ffyniant Bro (LUF) gan Lywodraeth y DU ym mis Medi, gan ddod â chyfanswm y cyllid a dderbyniwyd hyd yma i £17.047m. Bydd yn ofynnol adrodd i Lywodraeth y DU ar gynnydd yn y chwarter 4.
- **Gwaith Grantiau Lliniaru Llifogydd ar Raddfa Fach** - Mae 8 cynllun wedi'u cymeradwyo ar gyfer 2025/26 (tri chynllun adeiladu a phum cynllun dylunio). Mae gwaith ategol brys wedi'i wneud ym Mhorth Diana, ac mae'r prif waith allan ar dendr, i'w wneud yn chwarter 4. Mae Caerneddi a Lôn Trearddur yn parhau gyda'r asiantau tir, a rhoddir ystyriaeth i gael mynediad o dan hysbysiad yn Lôn Trearddur. Gwaith dylunio yn unig yw'r 5 cynllun sy'n weddill, ar gyfer gwella diogelwch a mynediad yn y griliau. Y gwaith i'w wneud mewn blwyddyn ariannol arall. Mae'r dyluniadau hyn bron wedi'u cwblhau. Rhagwelir gwariant llawn ar bob cynllun, yn amodol ar fynediad i'r tir neu hysbysiad.
- **Teithio Llesol (AT) -** Sicrhawyd £2.909m o grant Llywodraeth Cymru (LIC) i gynyddu lefelau teithio llesol, gwella iechyd a lles, gwella ansawdd aer, lleihau allyriadau carbon, cysylltu cymunedau a gwella mynediad teithio llesol at gyflogaeth, addysg a gwasanaethau allweddol, cyrchfannau a thrafnidiaeth gyhoeddus:-

    - Mae £0.500m ar gyfer gwaith craidd sy'n cynnwys nifer o gynigion ar gyfer cynlluniau, wedi'u rhannu i ddatblygu cyn y cynllun, mân waith a gweithgareddau monitro a gwerthuso.
    - £2.409m mewn perthynas â Malltraeth i Niwbwrch - Cam 2.

  Mae'r cynnydd yn chwarter 3 yn cynnwys gwaith sylweddol ar y safle ar gyfer y Prif Gynllun, Malltraeth - Niwbwrch, gyda chynnydd cadarnhaol yn unol â'r rhaglen waith. Mae Cam 1 i gyflawni'r gwaith mynediad ar gyfer gwaith adfer Pwll Traeth Bach hefyd wedi'i gwblhau (Cam 2 i'w gyflawni yn 2026/27 gyda ffynhonnell gyllid arall oherwydd cyfyngiadau amser o safbwynt ecoleg). Gwaith datblygu (astudiaethau / dylunio) yn parhau ym Menllech, Llanfairpwll, Amlwch a'r Gaerwen, gyda gwaith dylunio ar gyfer mân waith (cyfalaf) yn mynd rhagddo yn fewnol i'w gyflawni yn ystod y flwyddyn ariannol. Rhagwelir y bydd tanwariant cyffredinol o oddeutu £391k (ar y Rhaglen AT gyffredinol) yn bennaf oherwydd y rhagwelir y bydd gwariant is ar y prif gynllun o'i gymharu â swm y cyllid grant a sicrhawyd ar ddechrau'r flwyddyn. Mae'r Cyngor yn y broses o gytuno ar Orchymyn Amrywio gyda Thrafnidiaeth Cymru (TrC), sy'n hwyluso'r Grant ar ran LIC.
- **Cronfa Trawsnewid i Gerbydau Allyriadau Isel Iawn (ULEV) (2025/26)** – Mae £0.166m wedi'i ddyfarnu i hyrwyddo prosiectau isadeiledd gwefru cerbydau trydan, yn unol â Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan LIC. Pwrpas y cyllid hwn yw hwyluso'r gwaith o barhau i ddarparu safleoedd gwefru cyflym mewn 4 safle gwahanol ledled yr Ynys. Mae'r cynnydd yn chwarter 3 yn cynnwys cwblhau'r dogfennau tendro, y contract a'r gwaith cyfieithu o ddogfennau perthnasol a lansiwyd y tendr ddiwedd Hydref 2025. Ar ddiwedd chwarter 3, roedd y Cyngor yn y broses o sgorio'r ceisiadau a gyflwynwyd yn y Cam 'Gwahoddiad i Dendro'. Mae'r dyfynbrisiau wedi'u hadolygu ac yn y broses o gael eu derbyn gyda Scottish Power Energy Networks (SPEN) mewn 4 safle, gyda gwaith galluogi wedi'i gwblhau ar 1 safle. Rhagwelir y bydd y cyllid grant yn cael ei wario'n llawn.

- **Gwelliannau i Isadeiledd Bysiau** - Mae £0.208m wedi'i ddyfarnu i wneud gwaith dylunio manwl ar gyfer gwelliannau i safleoedd bysiau mewn lleoliadau ar y rhestr fer, a allai gynnwys ail-neilltuo lle ar ffyrdd. Adeiladir cynllun gwella un safle bysiau a gosodir RTI (Gwybodaeth Amser Real) mewn safleoedd bysiau gwledig. Mae'r cynnydd yn chwarter 3 yn cynnwys cwblhau'r arolygon topograffig a'r dyluniadau amlinellol ar gyfer y safleoedd y cytunwyd arnynt ymlaen llaw. Hefyd, cwblhawyd gweithgareddau ymgysylltu gyda Chynghorau Tref / Cymuned perthnasol. Dewiswyd y safle ar gyfer adeiladu ac mae trafodaethau'n parhau gyda chontractwr cynnal a chadw y Cyngor. Mae trafodaethau'n dal i fynd rhagddynt gyda TrC a Journeo ynglŷn â chyflwyno Codau QR sy'n gallu cael mynediad at RTI – mae'r risg o gyflawni erbyn diwedd mis Mawrth yn cael ei ystyried yn gymedrol. Felly, mae'r Cyngor wedi uwchgyfeirio'r mater i sylw LIC a bydd Cais am Newid yn cael ei gyflwyno yn gynnar yn y chwarter i wneud gweithgaredd arall yn ei le. Ar hyn o bryd, y nod yw gwario'r gyllideb gyfan ar yr amod y bydd LIC yn cytuno i'r Cais am Newid.

- **Plas Arthur (Cronfa Ffyniant a Rennir - SPF)** - Mae £0.350m o gyllid grant wedi'i sicrhau i gyfrannu at brosiect ehangach ym Mhlas Arthur. Mae'r dyddiad cau ar gyfer ei wario wedi ei symud ymlaen i Orffennaf 2026, a bydd yn cael ei ddefnyddio'n llawn erbyn y dyddiad cau i ddylunio'r datblygiad newydd a chostau adeiladu.

- **Grant Gwres Carbon Isel (4 grant)** – Dyfarnwyd cyllid ar draws pedwar grant ar wahân gwerth £15.7m. Y dyddiad cwblhau ar gyfer y pedwar bellach yw blwyddyn ariannol 2025/26. Mae Gwasanaeth Ynni LIC yn darparu cyllid grant sy'n talu 90% o'r costau ac mae'r Cyngor yn darparu cyllid cyfatebol ar gyfer y 10% sy'n weddill o'r cyllidebau cyfalaf presennol. Mae'r gwaith yn ymwneud â gosod pympiau gwres ffynhonnell aer ac adeiladu gwaith effeithlonrwydd ynni 27 o safleoedd.

  Mae chwe safle wedi'u cwblhau a'u comisiynu hyd yn hyn, a disgwylir i sawl un arall gael eu comisiynu yn yr wythnosau nesaf, yn amodol ar uwchraddio mesuryddion trydan gan y darparwyr cyfleustodau perthnasol.

  Llwyddwyd i sicrhau cyllid ychwanegol gwerth £0.565m yn chwarter 3 ar draws yr holl brosiectau. Bydd y cyllid hwn yn cael ei ddyrannu i wneud gwelliannau pellach i'r ochr allanol - yn bennaf ailosod ffenestri a drysau mewn sawl ysgol. Dyfarnwyd y cyllid drwy gwerthwchigymru, yn hytrach nag fel estyniad i'n contract presennol gyda'r contractwr ReFit. Mae perygl o hyd na fydd rhai safleoedd yn cael eu comisiynu erbyn diwedd mis Mawrth oherwydd ffactorau y tu allan i'n rheolaeth, yn enwedig oedi gan y DNO (Gweithredwr Rhwydwaith Dosbarth - SPEN) wrth uwchraddio cyflenwadau trydan. Byddwn yn asesu ac yn cyfathrebu'r risgiau hyn i Wasanaeth Ynni LIC dros yr wythnosau nesaf i helpu i flaengynllunio a phenderfynu ar y dull mwyaf priodol o reoli unrhyw danwariant posibl. Mae'n debygol y gellir dwyn cyllid ymlaen i 2026/27, ond bydd angen cadarnhau trefniadau ffurfiol.

- **Grant Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) (2025/26) - M**ae £0.476m o gyllid grant wedi'i ddyfarnu gan LIC yn 2025/26 i gefnogi dysgwyr ag ADY. Nod y grant yw sicrhau'r amgylcheddau dysgu gorau posibl ar gyfer plant a phobl ifanc anabl, a'r rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, i wella mynediad, hyrwyddo ymarfer cynhwysol, cefnogi dysgu a lles disgyblion. Bydd hyn yn cefnogi amcanion ALNET (ADY a Thribiwnlys Addysg) a newidiadau ADY, i greu system ddwyieithog unol ar gyfer cefnogi plant a phobl ifanc rhwng 0 a 25 oed gydag ADY, a chyflwyno Cwricwlwm i Gymru mewn ysgolion. Gyda'r prosiectau sydd ar hyn o bryd yn y rhaglen i'w cyflawni o dan y grant hwn, disgwylir y bydd y cyllid yn cael ei wario'n llawn.

- **Grant Ysgolion Bro (CFS) (2025/26)** - Dyfarnwyd £0.209m i gefnogi prosiectau ymarferol ar raddfa fach a chanolig i agor ysgolion y tu allan i'r oriau traddodiadol, yn benodol i addasu ysgolion i'w gwneud yn ddiogel a'u hagor yn effeithiol y tu allan i oriau traddodiadol i allu gwneud defnydd cymunedol o'r cyfleusterau presennol. Disgwylir y bydd y gyllideb yn cael ei gwario'n llawn. Bydd y gwaith yn dechrau yn ystod Ionawr, a disgwylir i'r prosiect gael ei gwblhau cyn diwedd y flwyddyn ariannol.

- **Cyllid cyfalaf Mannau Chwarae -** Dyfarnwyd £0.111m o gyllid grant i ymateb i ddiffygion a nodwyd yn Asesiad Digonolrwydd Chwarae yr Awdurdod Lleol 2025, yn unol â chanllawiau cyfalaf Grant Cyfleoedd Chwarae Cymru Gyfan i awdurdodau lleol ar gyfer cyllid cyfalaf ar gyfer mannau chwarae a meysydd chwarae 2025-26. Mae'r cyllid yn rhoi hyblygrwydd i brynu eitemau ar raddfa fawr i wella ansawdd mannau chwarae, adnewyddu meysydd chwarae a, hefyd, i helpu i greu mannau chwarae cynhwysol a hygyrch. Disgwylir i'r cyllid gael ei wario'n llawn.

- **Rhaglen Trawsnewid Trefi ar gyfer Prosiect Terfynfa Forol Amlwch** - Dyfarnwyd £0.920m o gyllid grant i gefnogi'r gwaith o adnewyddu adeilad Terfynfa Forol Amlwch a dod â'r adeilad yn ôl i ddefnydd, gan gynnwys costau adeiladu a ffioedd proffesiynol. Cyflwynwyd yr hawliad cyntaf ar gyfer chwarter 3, gan sicrhau £0.248m. Mae Rheolwr Prosiect wedi'i benodi i gyflawni'r ddau ddatblygiad. Sicrhawyd cyllid o £0.351m, sy'n mynd tan fis Mehefin 2028, gan y Gwasanaeth Adfer Niwclear yn flaenorol i gefnogi'r ddau elfen o'r prosiect ac mae'r hawliad cyntaf wedi'i gyflwyno, gan sicrhau £58k. Mae Uchelgais Gogledd Cymru wedi cytuno i gyllid o'r Cynllun Twf i gefnogi'r Unedau Diwydiannol a'r Derfynfa Forol, a disgwylir Llythyr Cynnig am £7m yn chwarter 4,  yn ogystal â Chytundeb Cyd-Fenter gyda LIC am £1.5m ar gyfer yr Unedau Diwydiannol. Mae dyluniadau llawn ar gyfer yr Unedau a'r Derfynfa wedi'u paratoi ac mae'r broses o ymgysylltu â defnyddwyr y Derfynfa Forol ar y gweill. Ymgynghorwyd â Grŵp Defnyddwyr y Porthladd ac roedd yr adborth yn gadarnhaol.

- **Rhaglen Trawsnewid Trefi (TTP) ar gyfer Grant Creu Lleoedd Ynys Môn -** Dyfarnwyd £0.294m o gyllid grant tuag at gefnogi adfywio Amlwch, Llangefni a Biwmares, a gwelliannau isadeiledd gwyrdd i'r Llain Werdd yn Nant y Pandy, sy'n cyfrannu at TTP LIC. Mae cyllid ychwanegol gan y TTP wedi'i sicrhau, gan fanteisio ar danwariant rhanbarthol yn chwarter 3. Mae'r grant diweddaraf bellach yn £0.952m, sy'n mynd tan fis Mawrth 2027 ac yn cynnwys 14 o brosiectau eiddo ar wahân ar draws Llangefni, Amlwch, Biwmares a Chaergybi. Mae £0.651m wedi'i broffilio i'w wario erbyn diwedd chwarter 4, gyda £0.210m yn cael ei hawlio hyd at ddiwedd chwarter 3. Er bod llawer o waith i'w gwblhau yn chwarter 4, dylid hawlio'r grant ar gyfer 2025/26 yn llawn.

- Mae cyllid gofal cymdeithasol wedi'i ddyfarnu gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol o sawl ffrwd cyllido wahanol, fel a ganlyn:-

  - **Cronfa Gofal Integredig (ICF)** - Hawliwyd £0.118m drwy'r ICF mewn blynyddoedd blaenorol, ac o gyllid arall, er mwyn cwblhau prosiectau sydd wedi llithro i 2025/26. Ar hyn o bryd, rhagwelir y bydd y cyllid sy'n weddill yn cael ei wario'n llawn y flwyddyn ariannol hon, a chaiff ei ddefnyddio i gyfrannu at gynlluniau sydd wedi'u cynnwys yng nghyllideb y CRT.

  - **Y Gronfa gyfalaf integreiddio ac ail-gydbwyso (IRCF)**

    - Canolfan Glanhwfa (£0.777m) – Mae'r cyllid yn cael ei ddefnyddio i drawsnewid capel / adeilad hanesyddol yn agos at ganol Llangefni yn Ganolfan Dementia gyntaf Ynys Môn. Mae rhan y Capel wedi'i chwblhau. Mae gwaith strwythurol wedi dechrau yng nghefn yr adeilad i adeiladu siafft y lifft. Bydd y cyllid yn cael ei ddefnyddio'n llawn.

### 3.2 Derbyniadau Cyfalaf

**3.2.1** Dyma'r derbyniadau cyfalaf ar gyfer y flwyddyn hyd yma a'r derbyniadau cyfalaf y cyllidwyd ar eu cyfer:-

| | Cyllideb 2025/26 £'000 | Derbyniwyd hyd at 31 Rhagfyr 2025 £'000 | Rhagolwg hyd at 31 Mawrth 2026 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Cronfa'r Cyngor:** | | | |
| Mân-ddaliadau | 0 | 0 | 0 |
| Cyffredinol | 155 | 70 | 70 |
| Diwydiannol | 238 | 0 | 0 |
| Ysgolion | 554 | 0 | 157 |
| **CRT** | 123 | 0 | 123 |
| **Cyfanswm** | **1,070** | **70** | **350** |

**3.2.2** Y derbyniadau cyfalaf a ragwelir ar 31 Mawrth 2026 yw £0.350m, gyda £0.070m wedi'i dderbyn ar 31 Rhagfyr 2025 (20%). Mae'r rhagolwg yn wahanol iawn i'r gyllideb am nifer o resymau. Mewn un achos, mae gwerthiant wedi methu, mae diddordeb cyfyngedig mewn ased arall ac ni fydd rhai, yn syml oherwydd amserlenni, yn cwblhau'r gwerthiannau yn y flwyddyn ariannol hon. Mae'r ffigwr a ragwelir, felly, wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu hyn.

**3.2.3** Er bod y derbyniadau cyfalaf a ragwelir yn £0.350m, mae £2.966m o dderbyniadau cyfalaf ar gael i gyllido'r rhaglen gyfalaf, gan fod £2.616m o dderbyniadau cyfalaf wedi'u dwyn ymlaen o 2024/25, sydd ar hyn o bryd yn cael eu cadw yn y gronfa wrth gefn derbyniadau cyfalaf. Ni fydd y ffigwr hwn i gyd ar gael i gyllido rhaglen gyfalaf y gronfa gyffredinol gan y bydd cyllid wedi'i glustnodi i gyllido'r rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, fel rhan o gyllid cyfatebol Cyngor Sir Ynys Môn, yn ogystal â chronfa wrth gefn clustnodedig Hamdden i gyllido gwelliannau hamdden, derbyniadau cyfalaf y CRT, yn ogystal â chyllid wedi'i glustnodi ar gyfer cynlluniau llithro o'r flwyddyn flaenorol.

## 4. GWARIANT GWIRIONEDDOL A RAGWELIR YN 2025/26

**4.1** Isod ceir tabl sy'n dangos y Gwariant a ragwelir ar 31 Mawrth 2026 a'r cyllid diwygiedig:-

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol £'000 | Gwariant a Ragwelir £'000 | Tan / Gorwariant a Ragwelir £'000 | Amrywiant % |
|---|---|---|---|---|
| Cronfa Gyffredinol Tai | 1,099 | 1,099 | 0 | 0 |
| Tai - CRT | 24,871 | 24,007 | (864) | (3) |
| Dysgu Gydol Oes | 3,905 | 2,948 | (957) | (25) |
| Economaidd ac Adfywio | 14,963 | 10,866 | (4,097) | (27) |
| Priffyrdd | 9,193 | 8,439 | (754) | (8) |
| Rheoli Gwastraff | 1,462 | 646 | (816) | (56) |
| Eiddo | 8,650 | 7,081 | (1,569) | (18) |
| Trawsnewid | 815 | 660 | (155) | (19) |
| Gwasanaethau Oedolion | 1,987 | 1,350 | (637) | (32) |
| **Cyfanswm** | **66,945** | **57,096** | **(9,849)** | **(15)** |
| **Cyllidir gan:** | **Cyllideb Flynyddol £'000** | **Cyllid a Ragwelir £'000** | **Amrywiant £'000** | **Amrywiant %** |
| Grant Cyfalaf | 39,883 | 34,372 | (5,511) | (14) |
| Derbyniadau Cyfalaf | 824 | 446 | (378) | (46) |
| Benthyca â Chefnogaeth | 5,967 | 4,581 | (1,386) | (23) |
| Benthyca Digefnogaeth | 3,682 | 2,125 | (1,557) | (42) |
| Cyfraniad Refeniw | 13,894 | 13,651 | (243) | (2) |
| Cronfeydd wrth gefn | 1,835 | 1,076 | (759) | (41) |
| Benthyciad | 860 | 845 | (15) | (2) |
| **Cyfanswm Cyllid** | **66,945** | **57,096** | **(9,849)** | **(15)** |

**4.2** Fel y gwelir yn Nhabl 4.1 (uchod), y tanwariant a ragwelir ar y rhaglen gyfalaf ar gyfer 2025/26 yw £9.849m, gyda'r posibilrwydd y bydd yn llithro i raglen gyfalaf 2026/27. Bydd y cyllid ar gyfer y llithriad hwn hefyd yn llithro i 2026/27 a bydd yn cael ei ystyried wrth lunio'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, y Strategaeth Gyfalaf a'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2026/27.

Mae’r tanwariant sylweddol a ragwelir yn rhaglen gyfalaf y gronfa gyffredinol yn cael ei grynhoi isod:-

**Dysgu gydol oes**
Mae disgwyl i’r gyllideb gyfalaf mynediad i adeiladau addysg i’r anabl danwario oherwydd bod Grant ADY LIC yn cael ei ddefnyddio i gyllido gwaith er mwyn caniatáu Mynediad i Adeiladau Addysg i’r Anabl 2025/26. Gofynnir ar hyn o bryd bod unrhyw danwariant yn cael ei ddwyn ymlaen i gyllido gwaith yn 2026/27 a thu hwnt. Mae disgwyl hefyd i’r gyllideb gyfalaf ar gyfer Adeiladau Addysg danwario. Mae hyn yn deillio o gynnydd yn y gyllideb o £0.572m o’r Dyfarniad Grant Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw Cyfalaf 2025/26 a chynnydd pellach o £0.381m i'r dyfarniad hwn ym mis Rhagfyr 2025. Gwnaed penderfyniad bwriadol i beidio â brysio’r gwariant ond, yn hytrach, ei roi yn erbyn gwariant sydd wedi’i ymrwymo a’i ddwyn ymlaen i raglen fesuredig yn 2026/27.

**Economaidd ac Adfywio**
Disgwylir tanwariant sylweddol ac mae hyn o ganlyniad i ddyfarnu cyllid grant dros nifer o flynyddoedd ariannol – bydd y cyllid grant yn cael ei ddwyn ymlaen ac, o ganlyniad, ni chollir unrhyw gyllid.

**Priffyrdd**
Rhagwelir y bydd tanwariant o tua £0.125m yn y gyllideb ar gyfer cerbydau a cherbydau graeanu. Mae hyn yn cynnwys ymrwymiadau a wnaethpwyd yn barod ac archebion pellach a gynlluniwyd. Ni fydd y cyllid cyfatebol ar gyfer cynllun lliniaru llifogydd (£0.239m) yn cael ei ddefnyddio y flwyddyn ariannol hon. Gwnaed penderfyniad bwriadol i beidio â gwneud cais cyfalaf ar gyfer cynlluniau draenio ar gyfer 2026/27 ac, yn lle hynny, defnyddio'r cyllid cyfatebol presennol sydd ar gael. Hefyd, fel y nodwyd yn adran 3.1.1 o'r adroddiad hwn, rhagwelir y bydd tanwariant yn y gyllideb teithio llesol (£0.391m).

**Rheoli Gwastraff**
Bydd canolbwyntio ar yr eitemau blaenoriaeth y flwyddyn ariannol hon yn arwain at danwariant ar y gyllideb, fel yr adroddwyd yn y chwarter blaenorol.

**Eiddo**
Ni fydd cyllideb y cynllun Uwchraddio Cyfleusterau Cyhoeddus yn cael ei gwario'n llawn; yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r gyllideb hon wedi cael ei defnyddio i ddarparu cyllid cyfatebol ar gyfer rhaglen grant Y Pethau Pwysig LIC, sy'n cyllido 80% o'r costau cymwys. Nid oes Rhaglen Y Pethau Pwysig yn 2025/26, ond mae'r Cyngor yn gobeithio y bydd y rhaglen ar gael yn y blynyddoedd i ddod ac y bydd y gyllideb sydd wedi'i thanwario ar gael i gefnogi Y Pethau Pwysig a cheisiadau grant eraill. Ni chredir y byddai’n synhwyrol ymrwymo’r gyllideb hon ar gyfer prosiectau sy’n cael eu cyllido’n llwyr gan y Cyngor eleni, tra bod posibilrwydd o ddefnyddio’r cyllid i gyflawni prosiectau yn y dyfodol, pan fydd 80% o’r costau’n cael eu cyllido gan grantiau. Os daw'n amlwg bod cyfleoedd grant yn y dyfodol yn annhebygol / anhyfyw, yna bydd y gwasanaeth yn cyllido gwaith uwchraddio’n uniongyrchol o'r gyllideb hon heb gyfraniad grant.

Ni fydd y gyllideb a ddyrannwyd i wneud gwelliannau ym Mhlas Arthur yn cael ei gwario'n llawn y flwyddyn ariannol hon. Mae £0.350m o gyllid SPF wedi'i sicrhau i gyfrannu at y gwaith hwn (gweler paragraff 3.1.1 uchod), a bydd y cyllid hwn yn cael ei flaenoriaethu a'i ddefnyddio cyn y dyddiad cau estynedig, gyda'r tanwariant i'w ddwyn ymlaen i 2026/27 i barhau â'r gwaith. Ni fydd y gyllideb ar gyfer llyfrgell Porthaethwy yn cael ei gwario yn 2025/26 oherwydd blaenoriaethau eraill y mae mwy o frys amdanynt.

**Trawsnewid**
Gwnaed buddsoddiad sylweddol mewn uwchraddio asedau TG mewn ysgolion gan ddefnyddio cyllid LIC (HWB). Bydd angen i'r Cyngor gyllido asedau yn lle’r rhain pan fyddant yn cyrraedd diwedd eu hoes ddefnyddiol. Mae cyllid yn cael ei ddyrannu, pan fydd ar gael, i greu cronfa wrth gefn i gyllido’r gwariant sylweddol, dros £2m, a fydd yn angenrheidiol yn 2027/28. Mae £0.150m wedi'i ddyrannu i gyllido’rariannu’r gost o newid dyfeisiau TG ac isadeiledd mewn ysgolion ac, er nad oes unrhyw wariant wedi'i gynllunio, bydd y cyllid hwn yn cael ei sicrhau ar gyfer y dyfodol trwy ei drosglwyddo i gronfa wrth gefn clustnodedig.

**Gwasanaethau oedolion**
Rhagwelir tanwariant ar draws y gwaith o adnewyddu cartrefi gofal o fewn y rhaglen gyfalaf. Gofynnir i'r holl danwariant ar hyn o bryd gael ei ddwyn ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf (2026/27), naill ai i barhau â'r gwaith a fwriadwyd yn wreiddiol neu i barhau â'r gwaith ar ddrysau tân ar draws cartrefi gofal gwasanaethau cymdeithasol.

**4.3** Y Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC) a ragwelir ar 31 Mawrth 2025 yw £158.377m, sef y gofyn sylfaenol i'r Awdurdod fenthyca er mwyn cyllido ei Raglen Gyfalaf. Mae benthyca allanol yn £121.710m ar hyn o bryd, gan olygu, yn ei hanfod, fod angen i'r Awdurdod fenthyg £36.667m i gyllido'r Rhaglen Gyfalaf bresennol. Os caiff y cyllid hwn ei fenthyca'n allanol, ni fydd yr Awdurdod yn mynd tu hwnt i'r terfynau benthyca a gymeradwywyd, yn unol â'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2025/26 (Atodiad 11).

## 5. BLYNYDDOEDD Y DYFODOL

**5.1** Argymhellodd y Strategaeth Gyfalaf y dylai'r cyllid ar gyfer Rhaglen Gyfalaf 2025/26 gael ei gyfyngu i gyfanswm y grant cyfalaf cyffredinol a benthyca â chefnogaeth (fel y penderfynir gan LIC) ac amcangyfrif o werth unrhyw dderbyniadau cyfalaf a dderbynnir. Disgwylir i raglen gyfalaf 2026/27 ddilyn yr un egwyddorion, gyda'r grant cyfalaf cyffredinol a benthyca digefnogaeth yn cael eu defnyddio i gyllido'r gwaith o adnewyddu cerbydau bob blwyddyn, buddsoddi mewn TGCh, adnewyddu asedau presennol a dyraniad blynyddol i dalu cost y grantiau statudol i ddarparu Cyfleusterau i'r Anabl. Bydd cyllid ar gael hefyd ar gyfer ail-wynebu ffyrdd a phrosiectau cyfalaf sy'n denu grantiau allanol, a byddant yn cael eu harfarnu fesul achos.

Ar ôl i'r prosiectau uchod gael eu cyllido, bydd unrhyw gyllid dros ben yn cael ei ddefnyddio i gyllido cynlluniau cyfalaf newydd, gyda blaenoriaeth yn cael ei roi i brosiectau sy'n cyfrannu at amcanion y Cyngor, fel y cânt eu nodi yng Nghynllun y Cyngor 2022-2027, ac unrhyw gynlluniau a all gynhyrchu arbedion refeniw neu gynhyrchu incwm ychwanegol yn y dyfodol.

Bydd y gyllideb gyfalaf arfaethedig yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor hwn ar 24 Chwefror 2026, gyda'r gyllideb derfynol yn cael ei chyflwyno i'r Cyngor llawn i'w chymeradwyo ar 5 Mawrth 2026. Cyflwynwyd y Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2026 i 2031 i'r Pwyllgor hwn ar 27 Ionawr 2026, a bydd yn cael ei chyflwyno i'r Cyngor llawn ar 5 Mawrth 2026.

## 6. CASGLIAD

**6.1** Mae'r canlyniadau ar ddiwedd chwarter 3, a'r gwariant cysylltiedig a ragwelir yn dangos bod mwyafrif y prosiectau ar darged i'w cwblhau o fewn y gyllideb. Er bod disgwyl i rai cynlluniau danwario ar hyn o bryd, rhaid nodi bod y cyllidebau wedi'u hymrwymo a bod gofyn amdanynt, a gofynnir i'r cynlluniau hyn lithro i 2026/27 i gael eu cwblhau yn y flwyddyn ariannol nesaf. Mae'r Cyngor hefyd yn disgwyl derbyn £0.350m o dderbyniadau cyfalaf yn 2025/26 i gyfrannu tuag at gyllido'r Rhaglen Gyfalaf.

**Crynodeb o wariant y prosiectau cyfalaf hyd yma yn erbyn y gyllideb gyfalaf a rhagolygon gwariant ar ddiwedd y flwyddyn**

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Gwariant Gwirioneddol (£) | Gwariant wedi'i Ymrwymo (£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Cyllideb Flynyddol a Wariwyd (%) | Gwariant a Ragwelir (£) | (Tan) / Gorwariant a Ragwelir (£) | Amrywiant (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cronfa Gyffredinol Tai** | | | | | | | | |
| Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl | 870,000 | 525,787 | 344,213 | 870,000 | 100 | 870,000 | 0 | 0 |
| Grant Galluogi | 198,030 | 33,026 | 0 | 33,026 | 17 | 198,030 | 0 | 0 |
| Tai Fforddiadwy | 30,650 | 0 | 0 | 0 | 0 | 30,650 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **1,098,680** | **558,813** | **344,213** | **903,026** | **82** | **1,098,680** | **0** | **0** |
| **Tai - CRT** | | | | | | | | |
| Contract Gwres Canolog | 200,000 | 89,190 | 0 | 89,190 | 45 | 104,000 | (96,000) | (48) |
| Contract Gwaith Cynnal a Chadw a Gynlluniwyd | 3,000,000 | 1,233,082 | 0 | 1,233,082 | 41 | 1,300,000 | (1,700,000) | (57) |
| Gwella Perfformiad Ynni | 3,300,000 | 2,320,944 | 0 | 2,320,944 | 70 | 3,300,000 | 0 | 0 |
| Gwaith Amgylcheddol | 500,000 | 98,488 | 0 | 98,488 | 20 | 300,000 | (200,000) | (40) |
| Prynu Eiddo Presennol a Datblygu Eiddo Newydd | 10,737,814 | 5,531,712 | 0 | 5,531,712 | 52 | 10,449,902 | (287,912) | (3) |
| Addasiadau'r Sector Cyhoeddus | 500,000 | 325,215 | 0 | 325,215 | 65 | 500,000 | 0 | 0 |
| Risg Tân | 500,000 | 212,523 | 0 | 212,523 | 43 | 500,000 | 0 | 0 |
| Fflyd | 650,000 | 293,186 | 0 | 293,186 | 45 | 687,873 | 37,873 | 6 |
| SATC | 5,483,000 | 5,599,429 | 0 | 5,599,429 | 102 | 6,865,000 | 1,382,000 | 25 |
| **CYFANSWM** | **24,870,814** | **15,703,771** | **0** | **15,703,771** | **63** | **24,006,775** | **(864,039)** | **(3)** |
| **Dysgu Gydol Oes** | | | | | | | | |
| Mynediad i Adeiladau Addysg i'r Anabl | 134,763 | 52,138 | 0 | 52,138 | 39 | 58,300 | (76,463) | (57) |
| Adnewyddu Adeiladau Addysg | 1,781,112 | 625,648 | 3,225 | 628,873 | 35 | 1,007,246 | (773,866) | (43) |
| Diogelwch Ysgol | 63,294 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | (63,294) | (100) |
| Adnewyddu Toiledau Ysgolion Uwchradd | 345,000 | 259,984 | 595 | 260,579 | 76 | 302,100 | (42,900) | (12) |
| Cynllun Grantiau Cyfalaf Gofal Plant | 450,311 | 159,958 | 68,492 | 228,450 | 51 | 450,311 | 0 | 0 |
| Mannau Chwarae | 110,824 | 84,872 | 0 | 84,872 | 77 | 110,824 | 0 | 0 |
| ADY 2025/26 | 476,154 | 386,131 | 2,496 | 388,627 | 82 | 476,154 | 0 | 0 |
| CFS 2025/26 | 208,800 | 18,337 | 191,522 | 209,860 | 101 | 208,800 | 0 | 0 |
| Uned Gofal Plant Llanfechell | 90,165 | 50,247 | 2,811 | 53,058 | 59 | 90,165 | 0 | 0 |
| Uned Gofal Plant Llangoed | 46,336 | 25,833 | 549 | 26,382 | 57 | 46,336 | 0 | 0 |
| Uned Gofal Plant y Fali | 25,721 | 17,043 | 0 | 17,043 | 66 | 25,721 | 0 | 0 |
| Gwaith Adeiladu Santes Fair | 20,419 | 20,419 | 0 | 20,419 | 100 | 20,419 | 0 | 0 |
| Dechrau Rhaglen Band B | 152,000 | 2,937 | 1,686 | 4,623 | 3 | 152,000 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **3,904,899** | **1,703,548** | **271,376** | **1,974,924** | **51** | **2,948,376** | **(956,523)** | **(24)** |

**ATODIAD C**

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Gwariant Gwirioneddol (£) | Gwariant wedi'i Ymrwymo (£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Cyllideb Flynyddol a Wariwyd (%) | Gwariant a Ragwelir (£) | (Tan) / Gorwariant a Ragwelir (£) | Amrywiant (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Economaidd ac Adfywio** | | | | | | | | |
| Canolfan Hamdden Caergybi - Offer Ffitrwydd | 140,000 | 116,920 | 0 | 116,920 | 84 | 140,000 | 0 | 0 |
| Canolfan Hamdden Plas Arthur - Ffens | 122,275 | 122,275 | 0 | 122,275 | 100 | 122,275 | (0) | (0) |
| Canolfan Hamdden Plas Arthur - Lloriau | 56,487 | 56,487 | 0 | 56,487 | 100 | 56,487 | 0 | 0 |
| CCTV - Canolfannau Hamdden David Hughes ac Amlwch | 50,000 | 7,273 | 9,535 | 16,808 | 34 | 50,000 | 0 | 0 |
| Adfywio Caergybi (Cam II THI) | 1,800,000 | 679,050 | 754,236 | 1,433,285 | 80 | 1,800,000 | 0 | 0 |
| Datblygu Economaidd a Lles Amgylcheddol | 322,543 | 0 | 0 | 0 | 0 | 322,543 | 0 | 0 |
| Llithrfa Porth y Wrach – Camerâu Gorfodi | 30,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 30,000 | 0 | 0 |
| Canolfan Gymunedol Newry | 51,287 | 0 | 0 | 0 | 0 | 51,287 | 0 | 0 |
| Isadeiledd Morol | 177,514 | 0 | 0 | 0 | 0 | 177,514 | 0 | 0 |
| Isadeiledd Ymwelwyr | 605,464 | 548,069 | 7,395 | 555,464 | 92 | 605,464 | 0 | 0 |
| Ailddatblygu Safle'r Goron | 935,700 | 104,605 | 0 | 104,605 | 11 | 120,000 | (815,700) | (87) |
| Plot Tregarnedd 2 Uned | 21,465 | 500 | 20,965 | 21,465 | 100 | 21,465 | 0 | 0 |
| Unedau Diwydiannol Amlwch – Cynllun Twf | 253,387 | 241,187 | 12,200 | 253,387 | 100 | 253,387 | 0 | 0 |
| Fan y Llyfrgell | 24,680 | 24,680 | 0 | 24,680 | 100 | 24,680 | 0 | 0 |
| Trawsnewid Trefi – Terfynfa Forol Amlwch | 920,000 | 270,453 | 0 | 270,453 | 29 | 440,000 | (480,000) | (52) |
| Trawsnewid Trefi - Grant Creu Lle | 951,900 | 160,241 | 0 | 160,241 | 17 | 650,900 | (301,000) | (32) |
| Y Gronfa Ffyniant Bro | 8,500,455 | 5,063,635 | 0 | 5,063,635 | 60 | 6,000,000 | (2,500,455) | (29) |
| **CYFANSWM** | **14,963,157** | **7,395,375** | **804,330** | **8,199,705** | **55** | **10,866,002** | **(4,097,155)** | **(27)** |
| **Priffyrdd** | | | | | | | | |
| Cerbydau | 306,511 | 294,350 | 0 | 294,350 | 96 | 294,350 | (12,161) | (4) |
| Cerbydau Graeanu | 467,108 | 354,250 | 0 | 354,250 | 76 | 354,250 | (112,858) | (24) |
| Cerbyd AHNE | 44,746 | 44,746 | 0 | 44,746 | 100 | 44,746 | 0 | 0 |
| Ailwynebu Priffyrdd | 3,853,026 | 2,490,378 | 0 | 2,490,378 | 65 | 3,853,026 | 0 | 0 |
| Cynlluniau Lliniaru Llifogydd (Cyllid Cyfatebol) | 238,584 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | (238,584) | (100) |
| Buddsoddi i Arbed - Cerbydau | 5,068 | 0 | 0 | 0 | 0 | 5,068 | 0 | 0 |
| Gwaith grantiau ar raddfa fach | 609,443 | 39,041 | 4,000 | 43,041 | 7 | 609,443 | 0 | 0 |
| Teithio Llesol | 2,908,979 | 741,960 | 647,650 | 1,389,610 | 48 | 2,517,979 | (391,000) | (13) |
| Cyfalaf Diogelwch Ffyrdd | 165,750 | 79,578 | 0 | 79,578 | 48 | 165,750 | 0 | 0 |
| Isadeiledd Bysiau | 208,000 | 25,762 | 30,409 | 56,171 | 27 | 208,000 | 0 | 0 |
| ULEV | 166,600 | 55,308 | 52,924 | 108,232 | 65 | 166,600 | 0 | 0 |
| Isadeiledd Gwefru Cerbydau Trydan | 219,577 | 49,588 | 18,807 | 68,395 | 31 | 219,577 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **9,193,392** | **4,174,960** | **753,790** | **4,928,750** | **54** | **8,438,789** | **(754,603)** | **(8)** |

**ATODIAD C**

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Gwariant Gwirioneddol (£) | Gwariant wedi'i Ymrwymo (£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Cyllideb Flynyddol a Wariwyd (%) | Gwariant a Ragwelir (£) | (Tan) / Gorwariant a Ragwelir (£) | Amrywiant(%) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rheoli Gwastraff** | | | | | | | | |
| Prosiectau Gwastraff | 1,445,000 | 144,829 | 438,288 | 583,117 | 40 | 629,117 | (815,883) | (56) |
| Offer Ailgylchu | 17,333 | 0 | 0 | 0 | 0 | 17,333 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **1,462,333** | **144,829** | **438,288** | **583,117** | **40** | **646,450** | **(815,883)** | **(56)** |
| **Eiddo** | | | | | | | | |
| Adnewyddu Asedau Presennol | 222,946 | 32,341 | 0 | 32,341 | 15 | 52,228 | (170,718) | (77) |
| Adnewyddu a Gwaith Trwsio - Swyddfeydd y Cyngor | 283,724 | 1,006 | 0 | 1,006 | 0 | 6,360 | (277,364) | (98) |
| Adnewyddu a Gwaith Trwsio - Canolfan Hamdden Amlwch | 80,000 | 5,163 | 0 | 5,163 | 6 | 6,360 | (73,640) | (92) |
| Adnewyddu a Gwaith Trwsio - Canolfan Hamdden David Hughes | 46,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 18,020 | (27,980) | (61) |
| Adnewyddu a Gwaith Trwsio – Canolfan Hamdden Plas Arthur | 850,000 | | 167,000 | 167,000 | 20 | 167,000 | (683,000) | (80) |
| Adnewyddu a Gwaith Trwsio – Llyfrgell Porthaethwy | 17,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | (17,000) | (100) |
| Pwyntiau Gwefru Solar ar gyfer Ceir | 844,711 | 385,469 | 0 | 385,469 | 46 | 844,711 | 0 | 0 |
| Eiddo Buddsoddi i Arbed | 15,596 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | (15,596) | (100) |
| Grant Gwres Carbon Isel – Swyddfeydd y Cyngor | 23,900 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | (23,900) | (100) |
| Grant Gwres Carbon Isel - 231 | 734,350 | 86,453 | 0 | 86,453 | 12 | 734,350 | 0 | 0 |
| Grant Gwres Carbon Isel - 249 | 1,358,609 | 575,167 | 0 | 575,167 | 42 | 1,358,609 | 0 | 0 |
| Grant Gwres Carbon Isel - 250 | 2,821,918 | 1,461,729 | 0 | 1,461,729 | 52 | 2,821,918 | 0 | 0 |
| Grant Gwres Carbon Isel - 251 | 1,071,273 | 435,038 | 0 | 435,038 | 41 | 1,071,273 | 0 | 0 |
| Uwchraddio Toiledau | 279,574 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | (279,574) | (100) |
| **CYFANSWM** | **8,649,601** | **2,982,366** | **167,000** | **3,149,366** | **36** | **7,080,829** | **(1,568,772)** | **(18)** |
| **Trawsnewid** | | | | | | | | |
| TGCh | 598,085 | 180,091 | 234,725 | 414,816 | 69 | 598,085 | 0 | 0 |
| Hwb TG | 155,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | (155,000) | (100) |
| Cynydd lled band ysgolion | 62,000 | 41,051 | 20,172 | 61,223 | 99 | 62,000 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **815,085** | **221,142** | **254,897** | **476,039** | **58** | **660,085** | **(155,000)** | **(19)** |
| **Gwasanaethau Oedolion** | | | | | | | | |
| Canolfan Glanhwfa | 599,644 | 367,710 | 0 | 367,710 | 61 | 599,644 | 0 | 0 |
| ICF | 118,275 | 3,093 | 770 | 3,863 | 3 | 118,275 | 0 | 0 |
| Adnewyddu a Gwaith Trwsio - Brwynog | 69,000 | 30,098 | 0 | 30,098 | 44 | 57,240 | (11,760) | (17) |
| Adnewyddu a Gwaith Trwsio - Garreglwyd | 514,000 | 137,524 | 0 | 137,524 | 27 | 159,000 | (355,000) | (69) |
| Adnewyddu a Gwaith Trwsio - Haulfre | 81,000 | 1,200 | 0 | 1,200 | 1 | 81,000 | 0 | 0 |
| Adnewyddu a Gwaith Trwsio - Plas Crigyll | 171,139 | 171,139 | 0 | 171,139 | 100 | 171,139 | 0 | 0 |
| Adnewyddu a Gwaith Trwsio - Plas Mona | 83,520 | 37,583 | 0 | 37,583 | 45 | 63,600 | (19,920) | (24) |
| Adnewyddu a Gwaith Trwsio - Hen Reithordy | 35,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | (35,000) | (100) |
| Adnewyddu a Gwaith Trwsio – Gors Felen | 315,000 | 5,705 | 0 | 5,705 | 2 | 100,000 | (215,000) | (68) |
| **CYFANSWM** | **1,986,578** | **754,052** | **770** | **754,822** | **38** | **1,349,898** | **(636,680)** | **(32)** |
| | | | | | | | | |
| **CYFANSWM** | **66,944,539** | **33,638,855** | **3,034,664** | **36,673,520** | **55** | **57,095,884** | **(9,848,655)** | **(15)** |

**<u>Newidiadau i gyllidebau / cynlluniau ychwanegol a ychwanegwyd ers gosod y gyllideb</u>**

**Newidiadau / cynlluniau a ychwanegwyd yn Chwarter 3**

| | | CYLLID | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cynllun | Cyllideb £ | Grant £ | Cronfa wrth gefn Grant Cyfalaf Gyffredinol £ | Cronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf £ | Cronfa Wrth Gefn Cyfalaf £ | Benthyca â Chefnogaeth £ | Benthyca Digefnogaeth £ | Cyfraniad Refeniw £ | Benthyciad £ |
| Pwyntiau Gwefru Solar ar gyfer Ceir | 844,711 | | | | | | | | 844,711 |
| Grant Teithio Llesol 2025/26 | 2,908,979 | 2,908,979 | | | | | | | |
| Grant Isadeiledd Bysiau 2025/26 | 208,000 | 208,000 | | | | | | | |
| Grant Cyfalaf Diogelwch Ffyrdd 2025/26 | 165,750 | 165,750 | | | | | | | |
| ULEV | 166,600 | 166,600 | | | | | | | |
| Ysgolion Bro (CFS) | 208,800 | 208,800 | | | | | | | |
| Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) | 476,154 | 476,154 | | | | | | | |
| Grant Galluogi 2025/26 | 198,030 | 198,030 | | | | | | | |
| Trwsio a Chynnal a Chadw Cyfalaf | 571,384 | 571,384 | | | | | | | |
| Grant Mannau Chwarae 2025/26 | 110,824 | 110,824 | | | | | | | |
| Grantiau Gwaith ar Raddfa Fach | 518,027 | 518,027 | | | | | | | |
| Uned Gofal Plant Llanfechell | 90,165 | 90,165 | | | | | | | |
| Uned Gofal Plant Llangoed | 46,336 | 46,336 | | | | | | | |
| Ffens Plas Arthur | 122,275 | 109,350 | | | 12,925 | | | | |
| THI Cam 2 | 205,000 | 205,000 | | | | | | | |
| CCTV – David Hughes ac Amlwch | 50,000 | 50,000 | | | | | | | |
| SPF Plas Arthur | 350,000 | 350,000 | | | | | | | |
| Cyllid | 0 | (112,625) | 112,625 | | | | | | |
| Cerbydau Trydan ac Isadeiledd Gwefru EV | 53,764 | 53,764 | | | | | | | |
| Cynllun grantiau cyfalaf gofal plant | 380,000 | 380,000 | | | | | | | |
| Trawsnewid Trefi – Terfynfa Forol Amlwch | 920,000 | 920,000 | | | | | | | |
| Trawsnewid Trefi - Grant Creu Lle 2025/26 | 293,740 | 293,740 | | | | | | | |
| Gwaith Adeiladu y Santes Fair | 20,419 | 20,419 | | | | | | | |
| Offer Ffitrwydd Caergybi | 140,000 | | | | 140,000 | | | | |
| Grant Isadeiledd Ymwelwyr | 182,578 | 182,578 | | | | | | | |
| Priffyrdd LGBI (Menter Benthyca Llywodraeth Leol) | 2,153,026 | | | | | 2,153,026 | | | |
| Swyddfeydd y Cyngor | 158,724 | | | | 158,724 | | | | |
| Cyfalaf Ysgolion | 379,346 | 380,923 | | | (1,577) | | | | |
| Plot Tregarnedd 2 Uned | 21,465 | 21,465 | | | | | | | |
| Unedau Diwydiannol Amlwch (Cynllun Twf) | 253,387 | 253,387 | | | | | | | |
| Isadeiledd Ymwelwyr | 178,933 | 178,933 | | | | | | | |
| Fan y Llyfrgell | 24,680 | 24,680 | | | | | | | |
| THI Cam 2 | 1,520,000 | 1,520,000 | | | | | | | |
| Cerbydau - AHNE | 44,746 | | | | 44,746 | | | | |
| Teleffoni | (31,776) | | | | (31,776) | | | | |
| Lled band ysgolion | 62,000 | | | | 62,000 | | | | |
| Ailddatblygu Safle'r Goron | 935,700 | 935,700 | | | | | | | |
| Amrywiad Grant Gwres Carbon Isel | 565,380 | 565,380 | | | | | | | |
| Llawr Canolfan Hamdden Caergybi | (3,003) | | | | (3,003) | | | | |
| IVC (compostio caeedig) | (7,791) | | | (7,791) | | | | | |
| Trawsnewid Trefi - Grant Creu Lle 2025/26 | 658,160 | 658,160 | | | | | | | |
| CRT - Gwelliant Ch3 | 350,000 | (432,637) | | | | | | 782,627 | |
| CRT - Gwelliant Ch2 | 1,492,000 | 2,182,291 | | | | | (690,291) | | |
| CRT - Gwelliant Ch1 | 2,134,814 | 2,506,892 | | | | | (7,695,571) | 7,323,493 | |
| **CYFANSWM** | **20,121,327** | **16,916,449** | **112,625** | **(7,791)** | **382,039** | **2,153,026** | **(8,385,862)** | **8,106,130** | **844,711** |